# Pwerau casglu gwybodaeth Ofcom mewn cysylltiad ag ymchwiliad i farwolaeth plentyn

**Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn cynnwys darpariaethau i gefnogi ymchwiliad crwner neu gwest i farwolaeth plentyn, drwy rymuso Ofcom i ofyn am wybodaeth gan wasanaethau ar-lein lle gallai hynny fod yn berthnasol i ymchwiliad. Gall Ofcom ofyn am yr wybodaeth hon drwy roi cais am wybodaeth adran 101 o dan y Ddeddf i wasanaethau o fewn y cwmpas.**

Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn cynnwys pwerau newydd i Ofcom gefnogi ymchwiliad, cwest neu ymchwiliad crwner[1] i farwolaeth plentyn.

**Mae 1 Ebrill 2024 yn nodi dechrau pŵer casglu gwybodaeth allweddol Ofcom (adran 101) i gefnogi crwneriaid.**

Mae'r nodyn hwn yn crynhoi sut mae Ofcom yn cefnogi crwneriaid ledled y DU, ein cynlluniau gweithredu ar gyfer swyddogaethau'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein sy'n cefnogi crwneriaid, dyletswyddau ychwanegol ar wasanaethau wedi'u categoreiddio i helpu teuluoedd sydd wedi colli plentyn, a'r camau nesaf arfaethedig.

## Gweithio gyda chrwneriaid

Nod pwerau adran 101 newydd Ofcom yw cefnogi holl grwneriaid a phrocuraduriaid ffisgal ledled y DU.

I baratoi ar gyfer hyn, rydym wedi bod yn gweithio gyda Swyddfa'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Prif Grwner i gysoni gwaith Ofcom â chanllawiau Prif Grwner Cymru a Lloegr. Rydym hefyd wrthi'n ymgysylltu â Swyddfa'r Goron a'r Gwasanaeth Procuradur Ffisgal yn yr Alban a Gwasanaeth Crwneriaid Gogledd Iwerddon.

Yng Nghymru a Lloegr, bydd cais ffurfiol y crwner am wybodaeth yn cael ei anfon drwy hysbysiad Atodlen 5 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Bydd crwneriaid o Ogledd Iwerddon yn anfon cais ffurfiol am wybodaeth drwy eu pwerau 17A o dan Ddeddf Crwneriaid (Gogledd Iwerddon) 1959. Yn yr Alban, daw pŵer procuradur ffisgal i gyflwyno ceisiadau am wybodaeth i Ofcom o gyfraith gwlad.

Ym mhob achos, bydd Ofcom yn cyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol i ymateb i hysbysiadau casglu gwybodaeth statudol crwner neu brocaduriaid ffisgal. Er enghraifft, yng Nghymru a Lloegr, mae gan Ofcom ddyletswydd gyfreithiol i ymateb i **hysbysiad Atodlen 5** (lle gall crwner fynnu bod tystiolaeth yn cael ei rhoi neu ei chynhyrchu i gefnogi ymchwiliad neu gwest) neu Adroddiad i **Atal Marwolaethau yn y Dyfodol** (adroddiad crwner i atal marwolaethau yn y dyfodol).

Yn ogystal â hyn, rydym yn gobeithio ymgysylltu'n anffurfiol â phob crwner unigol cyn gofyn yn ffurfiol am wybodaeth i gefnogi eu hymchwiliad i farwolaeth plentyn, er mwyn deall gofynion pob achos unigol a chytuno ar baramedrau'r cais am wybodaeth.

[1] Rydym yn defnyddio'r termau 'crwneriaid' yn y nodyn hwn, ond mae'r pwerau hyn hefyd yn ymestyn i'r Procuradur Ffisgal yn yr Alban a Gwasanaeth Crwneriaid Gogledd Iwerddon.

# Pwerau newydd Ofcom o dan y ddeddf

## Adran 101

Pan fydd Ofcom wedi cael cais am wybodaeth gan grwner,[2] mae ganddo bŵer yn ôl disgresiwn i fynnu bod pobl berthnasol yn darparu gwybodaeth iddo[3] at ddibenion ymateb i hysbysiad o'r fath neu baratoi adroddiad fel y nodir isod[4].

Mae'r wybodaeth y gall Ofcom ofyn amdani drwy geisiadau am wybodaeth adran 101 yn cynnwys y canlynol:

- cynnwys y mae'r plentyn yn dod ar ei draws;
- sut y daeth y plentyn ar draws y cynnwys, gan gynnwys rôl algorithmau neu swyddogaethau penodol;
- sut roedd y plentyn yn rhyngweithio â'r cynnwys;
- cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu, ei lwytho i fyny neu ei rannu gan y plentyn.

Bydd Ofcom yn ystyried cais pob crwner fesul achos, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol cyn penderfynu a ddylid rhoi hysbysiad o dan adran 101 i wasanaethau. Bydd ceisiadau casglu gwybodaeth adran 101 Ofcom yn dilyn proses debyg i'r Cais am Wybodaeth eraill y mae Ofcom yn eu cyflwyno i wasanaethau o fewn y cwmpas.

Daw pwerau disgresiwn adran 101 Ofcom i rym ar 1 Ebrill 2024.

## Adran 163

Pan fydd Ofcom wedi cael cais am wybodaeth gan grwner, mae ganddo bŵer disgresiwn i ysgrifennu adroddiad sy'n delio ag unrhyw faterion y mae'n ystyried sy'n berthnasol mewn cysylltiad ag ymchwiliad i farwolaeth.

Daeth pwerau disgresiwn adran 163 Ofcom i rym ar 10 Ionawr 2024.

## Dyletswyddau adran 75 a 76 ar wasanaethau wedi'u categoreiddio

Bydd gan wasanaethau a ddynodir fel gwasanaethau Categori 1, 2a a 2b[5] ddyletswyddau ychwanegol i nodi'n glir yn eu telerau gwasanaeth beth yw eu polisi ynglŷn â delio â cheisiadau gan rieni[6] plentyn sydd wedi marw am wybodaeth yn ymwneud â defnydd y plentyn o'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl ymgynghori ar ddyletswyddau adran 75 a 76 ar wasanaethau wedi'u categoreiddio yn ein gwaith Cam 3, fel yr amlinellir ym map gweithredu Ofcom. Byddem yn croesawu ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb i gefnogi ein gwaith yma.

Daw dyletswyddau adran 75 a 76 ar wasanaethau wedi'u categoreiddio i rym ar ôl ymgynghori ar gategoreiddio gwasanaethau a dyletswyddau penodol adran 75 a 76.

# Y camau nesaf

Ar ôl 1 Ebrill 2024, os bydd y crwner yn anfon cais ffurfiol am wybodaeth at Ofcom i gefnogi ymchwiliad i farwolaeth plentyn,[7] yna gall Ofcom gyhoeddi cais adran 101 i gasglu gwybodaeth gan wasanaethau o fewn y cwmpas.

Bydd Ofcom **yn ymgynghori ar ein pwerau casglu gwybodaeth adran 101** yn ein hymgynghoriad Casglu Gwybodaeth ehangach yn ystod Haf 2024. Byddem yn croesawu ymatebion gan yr holl randdeiliaid i gefnogi

[2] Er enghraifft, hysbysiad Atodlen 5 gan grwner yng Nghymru a Lloegr.
[3] Ystyr 'person perthnasol' yw person o fewn unrhyw un o baragraffau (a) i (e) o adran 100(5) o'r Ddeddf.
[4] Deddf Diogelwch Ar-lein Adran 101(1)(a)-(c)
[5] Mae'n rhaid i Ofcom gynnal ymchwil a rhoi cyngor i'r Llywodraeth ynghylch yr amodau trothwy ar gyfer pob categori gwasanaeth – Categori 1, Categori 2A a Chategori 2B. Bydd y Llywodraeth yn ystyried y cyngor hwn wrth osod trothwyon ar gyfer Categorïau mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd Ofcom wedyn yn cynhyrchu ac yn diweddaru cofrestr gyhoeddedig o wasanaethau wedi'u categoreiddio, ar sail y trothwyon hyn. Bydd y gofrestr gyhoeddedig o wasanaethau wedi'u categoreiddio yn pennu pa gwmnïau sydd angen cydymffurfio â'r dyletswyddau ychwanegol.
[6] Mae "rhiant" yn cynnwys unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
[7] Er enghraifft, hysbysiad Atodlen 5 gan grwner yng Nghymru a Lloegr.

ein gwaith ac i lywio ein dull gweithredu ar gyfer adran 101.

Os hoffech chi wybod mwy am ein cynlluniau gweithredu adran 101, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost atom: coronerssupport@ofcom.org.uk